# Pwyllgor Menter a Dysgu

**EL(3) 14-09 (p2) : 11 Mehefin 2009**

### Diben

Mae'r Pwyllgor wedi gwahodd Diogelwch Ffyrdd Cymru i gyflwyno tystiolaeth i'w ymholiad byr ar Gefnffyrdd a Lleihau Damweiniau.

### Cefndir

Sefydlwyd Diogelwch Ffyrdd Cymru i gynnal cydweithredu a rhyngweithio rhwng y 22 Awdurdod Lleol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, pedwar Heddlu Cymru, y tri Gwasanaeth Tân ac Achub, Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru a'r Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau.

Blaenoriaeth Diogelwch Ffyrdd Cymru yw ystyried materion addysg diogelwch ffyrdd, hyfforddiant a chyhoeddusrwydd, ond hefyd i ystyried materion sy'n ymwneud â pheirianneg a gorfodi sy'n effeithio ar addysg, hyfforddiant a chyhoeddusrwydd. Yn gyffredinol, derbynnir bod gweithio mewn partneriaeth yn sylfaenol i agenda Ddiogelwch Ffyrdd yng Nghymru, yn bresennol, ac ar gyfer y dyfodol, a bydd yn cyfrannu'n sylweddol at gyflawni targedau a rhoi strategaethau ar waith.

### Rhagarweiniad

Mae Swyddogion Diogelwch Ffyrdd Awdurdod Lleol yn cyflawni swyddogaeth statudol i leihau'r nifer o ddamweiniau heol drwy addysg, hyfforddiant a pholisïau a rhaglenni cyhoeddusrwydd. Mae hyn yn ymwneud â holl ddefnyddwyr heolydd Cymru, boed yn gefnffyrdd neu'n ffyrdd lleol. Mae pob awdurdod yn mabwysiadu dull 'o'r crud i'r bedd' i sicrhau bod holl aelodau'r gymuned yn elwa ar ymyriadau diogelwch ffyrdd.

### Addysg a Hyfforddiant

O fewn pob grwp defnyddwyr ffyrdd mae amryw o raglenni y mae awdurdodau lleol yn eu cyflwyno; gyda phob rhaglen ar sail ysgol wedi'i chysylltu â'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

### Cyn-ysgol

Clwb Traffig Plant – Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru yn hyrwyddo'r Clwb, a sefydlwyd i ddarparu ffordd strwythuredig i rieni a gofalwyr addysgu sgiliau diogelwch ffyrdd sylfaenol i'w plant 3 i 4 oed mewn ffordd ryngweithiol a difyr.

### Cynradd

Kerbcraft – Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Strategaeth Plant sy'n Cerdded ymarferol drwy addysgu plant rhwng 5 a 7 oed i fod yn gerddwyr mwy diogel drwy fynd â hwy i'r ffyrdd go iawn a dangos iddynt sut y gall gwneud y penderfyniad cywir a'r ymddygiad cywir eu helpu i fod yn ddiogel.

Swyddogion Diogelwch Ffyrdd Iau – mae'r cynllun yn rhoi'r pwer i blant amlygu materion diogelwch ffyrdd yn eu hysgol. Gellir gwneud hyn drwy gynyddu ymwybyddiaeth ymysg disgyblion, athrawon a'r gymuned, wrth hefyd gynnal cysylltiadau â'u swyddog diogelwch ffyrdd. Mae'r cynllun yn gysylltiedig â Dinasyddiaeth, sy'n annog disgyblion i gymryd cyfrifoldeb dros eu haddysg a gwneud penderfyniadau eu hunain.

Theatr mewn Addysg – ffordd ryngweithiol a difyr o atgyfnerthu negeseuon diogelwch ffyrdd i'r ifanc. Darperir adnoddau ar sail y cwricwlwm hefyd, gan sicrhau bod dysgu'r sgil bywyd bwysig hon yn parhau ym mhell wedi i'r perfformiad ddod i ben.

Llwybrau Diogel mewn Cymunedau – cynllun a ariennir gan Gynulliad Cymru wedi'i anelu at fynd i'r afael â'r ddibyniaeth gynyddol ar geir ar gyfer teithiau byr, drwy annog cymunedau ac ysgolion i bennu a mynd i'r afael â rhwystrau corfforol lleol o ran cerdded a beicio. Mae cynlluniau llwyddiannus yn darparu cyfalaf isadeiledd i wella hygyrchedd o fewn cymunedau. Mae'r ymagwedd hon yn annog cynhwysedd ymysg holl grwpiau defnyddwyr ffyrdd.

Hyfforddiant Beicio – Darperir hyfforddiant beicio ar yr heol sy'n bodloni Safonau Cenedlaethol i ddisgyblion blwyddyn 6 (10 i 11 oed) cyn iddynt ddechrau mewn ysgol uwchradd, lle byddant yn defnyddio beic, yn aml am y tro cyntaf, fel dull cludiant dewisedig ar gyfer eu taith.

### Uwchradd

CSI Cymru – Anelir CSI (Crash Scene Investigation) at bobl ifanc 16 i 18 oed ac arweinir gan swyddogion o 3 Gwasanaeth Tân ac Achub mewn cydweithrediad â Swyddogion Diogelwch Ffyrdd. Mae'r negeseuon am ganlyniadau Damweiniau Traffig Ffyrdd yn gref, ond yn cynnig gwybodaeth a strategaethau i fyfyrwyr i sicrhau eu bod yn osgoi anafiadau.

Theatr mewn Addysg – targedu cyflwyno neges benodol, llawer llai generig na'r Rhaglen Gynradd; yn aml yn gryf gyda gweithdai cysylltiedig yn galluogi'r myfyrwyr i lunio casgliad eu hunain, ac i ddatblygu strategaethau eu hunain er mwyn ymdopi â phwysau gan gyfoedion.

## Gyrwyr Ifanc

Megadrive – Addysg Cyn-gyrru i bobl ifanc 16 i 17 oed, dull ar y cyd gan asiantaethau gyda mewnbwn o Safonau Masnach lleol, Swyddogion yr Heddlu, yr AA / RAC a swyddogion diogelwch ffyrdd. Mae'r myfyrwyr yn cyflawni amryw o weithdai wrth iddynt baratoi ar gyfer bod yn yrwyr ifanc yn y dyfodol.

Pass Plus Cymru – lansiwyd gan Ddiogelwch Ffyrdd Cymru ym mis Mehefin 2006 i helpu i fynd i'r afael â'r pryder parhaus o ran niferoedd anghymesur o yrwyr ifanc (a theithwyr ifanc) yn cael eu lladd neu eu hanafu ar heolydd Cymru bob blwyddyn. Cefnogir y fersiwn hon a addaswyd o'r Pass Plus safonol gan yr Asiantaeth Safonau Gyrru a chynhwysa sesiwn dosbarth tair awr cyn taith chwe awr ag amodau gyrru newidiol.

## Gyrwyr

Cynllun Gwella Gyrwyr – gellir ei gynnig yn lle erlyniad i yrrwr a allai fod wedi disgwyl cael ei erlyn yn unol ag Is-adran 3 (cyfeirir ato'n gyffredinol fel 'gyrru heb ofal na sylw' Deddf Traffig Ffyrdd 1988). Mae'r cynllun yn para diwrnod a hanner ac anela at wella sgiliau, gwybodaeth ac ymddygiad drwy gyflwyno elfennau damcaniaethol ac ymarferol yn y car. Cynhelir y cynllun ar draws Cymru.

Cynllun Ymwybyddiaeth Cyflymder – yn debyg i'r Cynllun Gwella Gyrwyr ac yn caniatáu awdurdodau'r heddlu i ailgyfeirio beicwyr a gyrwyr sydd ond yn goryrru ychydig at gyrsiau addysgol yn hytrach nag erlyniad yn unol â'r System Cosb Sefydlog. Mae'r cwrs yn cynnwys gweithdy rhyngweithiol tair awr. Does dim elfen yrru wedi'i chynnwys yn y cwrs. Cyngor Sir Fflint a Grwp TTC yw'r darparwyr gwasanaeth ar hyn o bryd.

Gyrwyr Aeddfed – cynigir ar lefel lleol i bob gyrrwr dros 50 oed. Mae'r sesiwn dosbarth cychwynnol yn mynd i'r afael ag unrhyw bryderon ac yn atgof o Reolau'r Ffordd Fawr, yna bydd dysgu ymarferol yn y car gyda Hyfforddwr Gyrru Cymeradwy.

## Beicwyr

Hyfforddiant Beicio - Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu cyllid i CTC, Cymdeithas Beicwyr Cenedlaethol y DU, i gyflogi Swyddog Datblygu i roi cymorth i awdurdodau lleol gynyddu ansawdd ac argaeledd hyfforddiant beicio yn eu hardaloedd lleol. Mae'r Swyddog Datblygu, mewn partneriaeth â'r swyddog diogelwch ffyrdd lleol, hefyd yn cynorthwyo gydag adeiladu ar yr hyfforddiant ar yr heol gyfredol, a gyflwynir yn bennaf i ddisgyblion ysgol.

## Beicwyr Modur

Beicio Diogel Cymru – mae rhwng 20% a 25% o'r marwolaethau yn flynyddol ar heolydd Cymru yn feicwyr. Beicio Diogel Cymru, a arweinir gan yr Heddlu, yw'r brif fenter a gefnogir gan Ddiogelwch Ffyrdd Cymru sy'n cael ei hanelu at leihau marwolaethau. Yn 2008 cymerodd dros 500 o feicwyr modur rhan mewn gweithdy deuddydd Beicio Diogel Cymru, cyn cael eu hasesu ar daith. Mae sawl awdurdod lleol yn rhedeg cynlluniau tebyg i ehangu lefel yr hyfforddiant a gynigir i'r grwp.

## Cyhoeddusrwydd

Cefnogi'r rhaglenni addysg a hyfforddiant drwy gynyddu ymwybyddiaeth o negeseuon diogelwch ffyrdd allweddol i holl ddefnyddwyr ffordd, yn gyffredin i bob swyddog diogelwch sy'n aml yn edrych am ddulliau newydd ac arloesol o gyflwyno.

Mae Ymgyrch llwyddiannus 'THINK' yr Adran Gludiant, sy'n rhedeg drwy gydol y flwyddyn, yn adnabyddus i bawb.

Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n atodi'r ymgyrchoedd ar lefel cenedlaethol, ond y swyddogion diogelwch ffyrdd sy'n cyflwyno'r cyhoeddusrwydd cefnogol ar lefel lleol; yn aml drwy bapurau newydd cymunedol lleol hysbysebu ar y radio a digwyddiadau penodol.

Sicrha hyn uchafswm cyhoeddusrwydd a chynyddu ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd.

Bydd y Grwp Cyhoeddusrwydd Swyddogion Traffig Hyn a ffurfiwyd yn ddiweddar, y mae Diogelwch Ffyrdd Cymru yn aelod ohono, yn sicrhau am y tro cyntaf fod pob ymgyrch yng Nghymru sy'n ymwneud ag ymgyrchoedd gorfodaeth Heddlu ac yn cael eu cydredeg.

Dyw'r mentrau addysg, hyfforddiant a chyhoeddusrwydd hyn ddim yn drwyadl, ac rydym oll yn ymwybodol bod mwy o waith i'w wneud.

Mae Diogelwch Ffyrdd Cymru yn talu sylw penodol i'r gwaith sy'n cael ei gyflawni gan yr Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr (VOSA) o ran blinder gyrwyr a'r cynnydd sylweddol yn y nifer o gerbydau nwyddau trwm sydd wedi'u cofrestru dramor ac yn teithio i'r DU.

Rydym ni hefyd yn awyddus i gynnal astudiaeth o broffil gyrwyr sy'n gyrru'n anghyfreithlon ac yn ddi-hid; gyda'r bwriad o fynd i'r afael â'r materion hyn drwy ddull systematig wedi'i dargedu sy'n berthnasol i bob troseddwr.

## Cyllid

O ganlyniad uniongyrchol i grant arbennig diogelwch ffyrdd Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae Cymru, dros yr 8 mlynedd ddiwethaf, wedi profi ffyniant yn ansawdd a swm gweithgareddau hyrwyddo addysg, hyfforddiant a chyhoeddusrwydd diogelwch ffyrdd. Credwn ei fod wedi cael effaith. Yn 2008 roedd ffigurau'n dangos na chafodd un plentyn o dan 10 oed ei ladd ar y ffyrdd, a 5 o blant rhwng 10 a 15 oed yn unig gafodd eu lladd. Yn gyffredinol, bydd cyfanswm y marwolaethau yn llai na 150, yr ail swm isaf erioed.

Fodd bynnag, mae'r dyfodol yn edrych yn ansicr oherwydd ymddengys yn debygol y bydd cyllid wedi 2009/2010 yn cael ei alinio at y broses Cynllunio Trafnidiaeth Ranbarthol newydd, a all arwain at gwymp mewn cyllid a ddyrennir i awdurdodau lleol sy'n ddarparwyr statudol addysg, hyfforddiant a chyhoeddusrwydd.

Felly, mae aelodau Diogelwch Ffyrdd Cymru yn poeni'n fawr y bydd addysg, hyfforddiant a chyhoeddusrwydd yn cael eu hymyleiddio yn y dyfodol, a'r gwaith da a gynhaliwyd eisoes yn cael ei isafu.

## Crynodeb / Argymhellion

Mae gan Swyddogion Diogelwch Ffyrdd Awdurdod Lleol gryn dipyn o arbenigedd a dealltwriaeth o ran cyflwyno addysg, hyfforddiant a chyhoeddusrwydd ar lefel lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Mae'r cyllid uniongyrchol a dderbynnir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar ffurf Grant Diogelwch Ffyrdd wedi'n galluogi i gyflawni gwelliannau i briffyrdd a chyflwyno rhaglenni addysg, hyfforddiant a chyhoeddusrwydd arloesol, a ni fyddai nifer ohonynt wedi bod yn bosib heb y cyllid uniongyrchol hwn.

Felly, hoffai Diogelwch Ffyrdd Cymru awgrymu bod y Grant Diogelwch Ffyrdd yn parhau yn ei ffurf bresennol i alluogi swyddogion diogelwch ffyrdd awdurdodau lleol i gyflawni'r amcanion a bennir yn Strategaeth Diogelwch Ffyrdd Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Yn ail, buasai Diogelwch Ffyrdd Cymru yn croesawu trafodaeth hyddysg â Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ddatblygu gweledigaeth Gymreig ar gyfer diogelwch ffyrdd yng Nghymru, gyda phwyslais penodol ar 'ddull strwythuredig' o fynd i'r afael ag addysg, hyfforddiant a chyhoeddusrwydd fel y gwelir yn yr Alban.

**Joy Smith – Cadeirydd Diogelwch Ffyrdd Cymru**
**Mehefin 2009**